Annog ymatebion

Ystyriaethau Allweddol

- Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganfasio pob eiddo Llwybr 2 yn eu hardal bob blwyddyn, a gwneud o leiaf dair ymgais i gysylltu lle na bo ymateb.
- Yn ogystal â chymryd y camau dilynol rhagnodedig, gall diffyg ymateb gan gartrefi hefyd olygu bod yn rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gymryd camau pellach, e.e. cynnal adolygiad cofrestru er mwyn canfod pwy sydd â hawl i fod ar y gofrestr etholiadol
- Os bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dod yn ymwybodol o unigolyn mewn cartref sydd â hawl i gofrestru i bleidleisio, rhaid iddo wahodd yr unigolyn hwnnw i wneud hynny ac anfon dau nodyn atgoffa ac ymweld â'r cartref yn bersonol os na cheir ymateb
- Po gynharaf yn y broses ganfasio neu'r broses Gwahoddiad i Gofrestru y bydd cartref neu unigolyn yn ymateb, y lleiaf o adnoddau y bydd yn rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eu defnyddio
- Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio eu deunydd swyddfa a deunyddiau cofrestru i annog ymateb cyn gynted â phosibl

Opsiynau

- Canfaswyr yn gadael ‘cardiau ymweld’ os na fu modd iddynt siarad yn uniongyrchol ag aelod o gartref
- Diwygio deunyddiau cofrestru, o fewn terfynau'r ddeddfwriaeth, er mwyn annog ymateb
- Ychwanegu negeseuon allweddol i du allan yr amlenni er mwyn annog ymatebion.

Ystyriaethau ar gyfer y Swyddog Cofrestru Etholiadol

- Sicrhau, wrth ddefnyddio unrhyw rai o'r opsiynau ar gyfer annog ymateb, eu bod yn parhau i gyflawni eu holl ddyletswyddau cyfreithiol, gan gynnwys yr holl gamau dilynol ar gyfer achosion o beidio ag ymateb i gyfathrebiadau canfasio a Gwahoddiadau i Gofrestru.
- Sicrhau, wrth ddefnyddio unrhyw ddiwygiadau i'r deunyddiau er mwyn annog ymateb, fod yr holl ddeunyddiau cofrestru yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth

Buddiannau posibl

- Cyfradd ymateb well ar gam cynharach yn y broses Ffurflen Ymholiad y Cartref neu'r broses Gwahoddiad i Gofrestru
- Llai o angen am nodiadau atgoffa ac ymweld â chartrefi, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd a photensial i leihau costau
- Cofrestri mwy cywir a chyflawn
- Profiad gwell i etholwyr

Profiadau cyrff eraill

Cyngor Dinas Bradford a Chyngor Bwrdeistref Sefton
Cyflwynodd Cyngor Bradford 'gardiau ymweld' wedi'u hatodi i ffurflenni cofrestru a anfonwyd i bob eiddo nad oedd wedi ymateb ar adeg ymweliadau personol, er mwyn annog ymateb. O'i gymharu â canfaswyr yn gadael ffurflenni heb gardiau, mae hyn wedi cynyddu'r gyfradd ymateb o 5% i 15-20%.

Mae Cyngor Sefton wedi treialu gadael cerdyn ymweld gyda Gwahoddiadau i Gofrestru. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac mae wedi helpu i oresgyn amharodrwydd i roi manylion adnabod personol ar garreg y drws.

Cyngor Bwrdeistref Swale
Yn 2015, roedd Cyngor Swale wedi anfon mwy na 5,000 o Wahoddiadau i Gofrestru yn ystod y canfas o ganlyniad i ymatebion i'r canfasio ond ni wnaeth pob un ohonynt ennyn ceisiadau llwyddiannus i gofrestru. Gan adeiladu ar Lythyr Hysbysu'r Cartref a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus iawn cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2015, lluniwyd Cerdyn Hysbysu'r Cartref ar gyfer canfas 2016 gan ddefnyddio system lliwiau goleuadau traffig. Dyluniwyd y cerdyn hwn, sy'n debyg i gerdyn post, yn benodol er mwyn annog pobl nad oeddent eisoes wedi cofrestru i wneud cais, ac roedd o gymorth i etholwyr a oedd efallai wedi drysu ynglŷn â chael ffurflen ychwanegol ar ôl cwblhau ymateb canfasio.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnaeth Cyngor Swale gyda'i Gerdyn Hysbysu'r Cartref ar gael yn yr astudiaeth achos hon.

Cyngor Dinas Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Glwad yr Haf
Mae Cyngor Caerfaddon wedi ychwanegu'r geiriau *'Hysbysiad o adolygu/dileu'* at y prif amlenni a ddefnyddir i anfon llythyrau adolygiad cofrestru, ac mae hyn wedi arwain at lai o gwynion a chamddealltwriaeth gan drigolion. Mae'r neges hon ar yr amlenni hefyd wedi helpu gyda'r gwaith o weinyddu unrhyw lythyrau nas dosbarthwyd, gan nad oes angen eu hagor i wybod eu cynnwys ac mae modd eu prosesu'n gyflymach.

Adnoddau

Mae Rhan 1 o'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cynnwys cyngor ar weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn cofrestru. Mae ein taflenni tactegau enghreifftiol ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed yn cynnwys syniadau penodol ar gyfer targedu grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol, megis pobl ifanc, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a rhentwyr preifat.

Gallwch hefyd ddefnyddio ein hadnoddau a thempledi ar gyfer unrhyw gyfathrebu â thrigolion yn eich ardal. Cafodd y rhain eu dylunio gydag effaith a hygyrchedd mewn cof.

Cysylltwch â ni

Byddem wir yn gwerthfawrogi clywed gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol sut maent yn defnyddio deunyddiau cofrestru i annog ymateb cyn gynted â phosibl. Cysylltwch â'ch tîm lleol yn y Comisiwn. Fel arall, os hoffech siarad yn uniongyrchol ag unrhyw rai o'r awdurdodau a enwir yn yr adnodd hwn, rhowch wybod i ni a byddwn yn fwy na pharod i'ch helpu yn hyn o beth.